Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod Gorffennaf 2025

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd yr Is gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mai 2025.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Cafwyd cadarnhad bod Pwyllgor wedi ei ffurfio ac mai Paul Jones yw'r Cadeirydd ac Hefin Jones ac yn cynrychioli'r Cyngor Bro.
Cafwyd cadarnhad bod ceisiadau am grantiau wedi eu cymeradwyo. Penderfynwyd anfon llythyr ebost at Meinir Evans, Ygrifenyddes Datblygu'r Cae Chwarae a chopi at Paul Jones bod ochr ariannol y prosiect yn aros gyda Cyngor Bro Llanllwni, gan mai cyfrifon y Cyngor oedd wedi eu defnyddio wrth wneud y cais a llongyfarch Meinir ar gyflwyno cais llwyddianus.

Derbyniwyd cais gan Glwb pêl-droed Iau Llanybydder i ddefnyddio'r Cae Chwarae yn ystod y tymor newydd i chwarae gemau cynghrair. Penderfynwyd cefnogi'r cais hwn.

DIFFYG YMATEB

Roedd y Clerc wedi cysyllu'n ddiweddar â Chyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â sawl pwnc yn y plwyf. Nid oedd wedi derbyn ymateb i amryw ymholiadau perthnasol.

PENDERFYNWYD CEFNOGI

Eisteddfod Rhys James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan
Noah's Ark Elusen Ysbyty Plant

Derbyniwyd cwyn am barcio gan y Cyngor. Roedd y gwyn y tu hwnt i awdurdod y Cyngor Bro.

**Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 8 Medi 2025 am 8yh.**